



www.clybiauplantcymru.org

Learner & Employer

Newsletter


April 2025



Newyddlen y

Dysgwr a'r Cyflogwr

Ebrill 2025



Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436 | Elusen Gofrestredig 1093260 | Yn gweithio mewn partneriaeth â:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cambrian
Training
Hyfforddiant
Cambrian



Welcome to 2025, or as I have heard it referred to 20-twenty thrive and even 20-twenty survive. Already a third on the way through the year and a quarter of the way through a century. We look forward to working with you as learners and employers this coming year and having you engage with your qualification. We love hearing about learners practice and the impact the course is having on individual practice as well as the setting they work in. So, if you would like to share your reflections, lightbulb moments and changes to practice please get in touch and let us know.

Successes and Feedback

NCFE Feedback

We had our NCFE External Quality Assurance (EQA) visit in October and once again received high praise for the work, quality, delivery and assessment of our playwork qualifications.

AGORED Feedback

Recent AGORED feedback has also been positive with no actions.

We continue, as a training team to strive to provide outstanding delivery and learning experiences and continually reflect and review our practice to see what we could be doing to meet the needs of learners and employers. Your feedback, both positive and constructive.

National Playwork Awards 2025

Congratulations go to the Training Team at Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, who were awarded the Professional Development Award 2025 at the Annual Playwork Awards, in its 15th year coincide with the National Playwork Conference held in Eastbourne.

This was an amazing achievement, and we are so proud of the team for making this happen.

Croeso i 2025, neu fel y cyfeirir ati yn y Saesneg, yn ôl a glywais i, blwyddyn ffynnu neu oroesi: - '20-20 thrive a 20-20 survive'. Eisoes traean y ffordd drwy'r flwyddyn a chwarter y ffordd drwy'r ganrif. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi fel dysgwyr a chyflogwyr yn ystod y flwyddyn a'ch cael yn ymgysylltu â'ch cymhwyster. Rydyn ni wrth ein bodd yn clywed am ymarfer dysgwyr a'r effaith y mae'r cwrs yn ei gael ar arferion unigol yn ogystal â'r lleoliad y maen nhw'n gweithio ynddo. Felly, os hoffech chi rannu eich adfyfyrdodau, eich syniadau sydyn a'r newidiadau yn eich arferion, cysylltwch â ni a gadewch i ni wybod.

Llwyddiannau ac Adborth

Adborth NCFE

Cawsom ein hymweliad Sicrwydd Ansawdd Allanol (SAA[EQA]), NCFE ym mis Hydref ac unwaith eto cawsom ganmoliaeth uchel am waith, ansawdd, darpariaeth a'r asesu o'n cymwysterau gwaith chwarae.

Adborth AGORED

Mae adborth diweddar AGORED hefyd wedi bod yn gadarnhaol heb unrhyw gamau gweithredu.

Rydym yn parhau, fel fîm hyfforddi, i ymdrechu i ddarparu profiadau dysgu a chyflwyno rhagorol ac yn adfyfyrio ar ein harferion a'u hadolygu'n barhaus i weld beth y gallem fod yn ei wneud i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Eich adborth, cadarnhaol ac adeiladol.

Gwobrau Gwaith Chwarae Cenedlaethol 2025

Llongyfarchiadau i Dîm Hyfforddi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, a enillodd Wobr Datblygiad Proffesiynol 2025 yn y Gwobrau Gwaith Chwarae Blynyddol, yn ei 15fed flwyddyn i gyd-fynd â Chynhadledd Genedlaethol Gwaith Chwarae a gynhaliwyd yn Eastbourne.

Roedd hwn yn gyflawniad anhygoel, ac rydym mor falch o'r fîm am wneud i hyn ddigwydd.



2024 / 2025 Completers

We want to say HUGE congratulations to all our learners that have completed since April 2024. We have claimed an enormous number of certificates, **549** in total.

This is 57 x Level 1 Playwork, 192 x Level 2 Award in Playwork Practice (L2APP), 10 x Level 2 Certificate (L2 Cert), 188 x Level 3 Award in Transition to Playwork (L3 ATPW), 8 x Level 2 Diploma in Playwork, 23 x Level 3 Diploma in Playwork, 10 x Level 5 in Advanced Playwork (Wales) (Manager), 19 x Essential Skills (mixture of Level 1 and Level 2 Communications and Application of Number), 25 x Apprenticeship Framework, 3 x Level 3 Playwork Principles into Practice (P3), 14 x Level 3 Award in Delivering Dynamic Playwork Training. (ADDPT)

	TOTAL
LEVEL 1 PLAYWORK	57
LEVEL 2 AWARD IN PLAYWORK PRACTICE (L2APP)	192
LEVEL 2 CERTIFICATE (L2 CERT)	10
LEVEL 3 AWARD IN TRANSITION TO PLAYWORK (L3 ATPW)	188
LEVEL 2 DIPLOMA IN PLAYWORK	8
LEVEL 3 DIPLOMA IN PLAYWORK	23
LEVEL 5 IN ADVANCED PLAYWORK (WALES) (MANAGER)	10
ESSENTIAL SKILLS (MIXTURE OF LEVEL 1 AND LEVEL 2 COMMUNICATIONS AND APPLICATION OF NUMBER)	19
APPRENTICESHIP FRAMEWORK	25
LEVEL 3 PLAYWORK PRINCIPLES INTO PRACTICE (P3)	3
LEVEL 3 AWARD IN DELIVERING DYNAMIC PLAYWORK TRAINING (ADDPT)	14

Cyflawnyr 2024 / 2025

Hoffem ddwedu llongyfarchiadau ENFAWR i'n holl ddysgwyr sydd wedi cwblhau ers Ebrill 2024. Rydym wedi hawlio nifer fawr iawn o dystysgrifau, cyfanswm o **549**.

Sef, 57 x Gwaith Chwarae Lefel 1, 192 x Dyfarniad mewn Arferion Gwaith Chwarae Lefel 2, 10 x Tystysgrif Lefel 2, 188 x Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae, 8 x Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae, 23 x Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, 10 x Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru) (Rheolwr), 19 x Sgiliau Hanfodol (Lefel 1 and Lefel 2 Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif yn gymysg), 25 x Fframwaith Prentisiaeth, 3 x Lefel 3 mewn Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ar Waith (P3), 14 x Dyfarniad Lefel 3 mewn Cyflenwi Hyfforddiant Gwaith Chwarae Deinamig.

	CYFANSWM
GWAITH CHWARAE LEFEL 1	57
DYFARNIAD MEWN ARFERION GWAITH CHWARAE LEFEL 2	192
TYSTYSGRIF LEFEL 2	10
DYFARNIAD LEFEL 3 MEWN PONTIO I WAITH CHWARAE	188
DIPLOMA LEFEL 2 MEWN GWAITH CHWARAE	8
DIPLOMA LEFEL 3 MEWN GWAITH CHWARAE	23
LEFEL 5 MEWN GWAITH CHWARAE UWCH (CYMRU) (RHEOLWR)	10
SGILIAU HANFODOL (LEFEL 1 AND LEFEL 2 CYFATHREBU A CHYMHWYSO RHIF YN GYMYSG)	19
FFRAMWAITH PRENTISIAETH	25
LEFEL 3 MEWN YR EGWYDDORION GWAITH CHWARAE AR WAITH (P3)	3
DYFARNIAD LEFEL 3 MEWN CYFLENWI HYFFORDDIANT GWAITH CHWARAE DEINAMIG	14



Wales Essential Skills Test (WEST)

Prawf Sgiliau Hanfodol Cymru

Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru | Wales Essential Skills Toolkit

Croeso i Becyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae'r Pecyn Cymorth yn gadael i chi reoli eich dysgu ac yn rhoi i chi'r holl arfau a chefnogaeth mae eu hangen arnoch i lwyddo gyda Sgiliau Hanfodol.

Cymraeg

Defnyddiwr sy'n dychwelyd? Mewngofnodwch >

Gwnewch brawf sgrinio 10 munud >

Welcome to WEST - the Wales Essential Skills Toolkit. WEST puts you in charge of your learning and gives you all the tools and support you need for Essential Skills success.

English

Returning user? Sign in >

Take a 10 minute screener >

Contact us Accessibility Privacy policy Copyright

TRIBAL

When signing up to an apprenticeship, there is a requirement that you complete a numeracy and literacy assessment using the Wales Essential Skills Toolkit (WEST), this is a requirement as part of the apprenticeship funding so MUST be done and is included as part of the probation period.

The rules have recently been changed so that if you have proxies (existing English or Maths GCSEs at grade C or above or Essential Skills qualifications, Level 1 or 2, depending on Level of Playwork qualification being undertaken) then you only need to undertake the 10-minute screener. WEST uses an algorithm, so the more you get right, the longer it will take.

WEST supports us as Training Officers to tailor training, assessment and planning to meet your individual needs and skills development throughout your learning journey. Alternatively, just look at it as a fun (forced, not so fun) quiz.

Wrth gofrestru ar gyfer prentisiaeth, mae'n ofynnol i chi gwblhau asesiad rhifedd a llythrennedd gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST), mae hwn yn ofyniad fel rhan o'r cyllid prentisiaeth felly RHAID ei wneud a chaiff ei gynnwys fel rhan o'r cyfnod prawf.

Mae'r rheolau wedi'u newid yn ddiweddar, felly os oes gennych gymwysterau dirprwyol (gradd C neu uwch TGAU Saesneg neu Fathemateg, neu gymwysterau Sgiliau Hanfodol, Lefel 1 neu 2, yn dibynnu ar Lefel y cymhwyster Gwaith Chwarae sy'n cael ei wneud) yna dim ond y sgriniwr 10-munud sydd angen i chi ei wneud. Mae Prawf Sgiliau Hanfodol Cymru yn defnyddio algorithm, felly po fwyaf y byddwch chi'n ei gael yn iawn, yr hiraf y bydd yn ei gymryd.

Mae Prawf Sgiliau Hanfodol Cymru yn ein cefnogi fel Swyddogion Hyfforddi i deilwra hyfforddiant, asesu a chynllunio i ddiwallu eich anghenion unigol a datblygu sgiliau drwy gydol eich taith ddysgu. Fel arall, edrychwch arno fel cwis hwyl (nid mor hwyliog dan orfodaeth).

Safeguarding

Professional Curiosity - what does this mean?

In relation to safeguarding, professional curiosity is the practice of exploring and questioning information to understand a person's situation, either as an individual or the family. Where you seek to explore and understand what is happening in someone's life.

Being professionally curious is about avoiding making assumptions about individual or family circumstances. It is about ensuring that you are listening, observing, asking direct questions, checking information given and reflecting on what you have seen/heard so that it matches up.

To be professionally curious, we should not make assumptions about what we think is going on, and have confidence to ask open questions.

REMEMBER though, if it is a disclosure then you should avoid asking questions.

Social media accounts

Does your setting have a social media presence? Have you reviewed your safeguarding policies and procedures to ensure that they are up to date and reflect the latest guidance on using and managing social media accounts?

Consider who has access to the group. Who can see the photos? Is the group closed or open? How do you check and review membership if it is a closed group? It is important that your online presence protects and safeguard children, family and staff.

Diogelu

Chwilfrydedd Proffesiynol - beth mae hyn yn ei olygu?

Mewn perthynas â diogelu, chwilfrydedd proffesiynol yw'r arfer o archwilio a chwestiynu gwybodaeth i ddeall sefyllfa person, naill ai fel unigolyn neu mewn cysylltiad â'r teulu. Lle'r ydych chi'n ceisio archwilio a deall beth sy'n digwydd ym mywyd rhywun.

Mae bod yn chwilfrydig yn broffesiynol yn ymwneud ag osgoi gwneud rhagdybiaethau am amgylchiadau unigol neu deuluol. Mae'n ymwneud â sicrhau eich bod yn gwrando, yn arsylwi, yn gofyn cwestiynau uniongyrchol, yn gwirio'r wybodaeth a roddwyd ac yn myfyrio ar yr hyn yr ydych wedi'i weld/glywed i sicrhau eu bod yn cyfateb.

I fod yn broffesiynol chwilfrydig, ni ddylem ragdybio beth sy'n digwydd yn ein barn ni, dylem fod â'r hyder i ofyn cwestiynau agored.

COFIWCH serch hynny, os yw'n ddatgeliad yna dylech osgoi gofyn cwestiynau.

Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol

A oes gan eich lleoliad bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol? A ydych wedi adolygu eich polisïau a gweithdrefnau diogelu i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r canllawiau diweddaraf ar ddefnyddio a rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol?

Ystyriwch pwy sydd â mynediad i'r grŵp. Pwy all weld y lluniau? Ydy'r grŵp yn un caeëdig neu agored? Sut mae gwirio ac adolygu aelodaeth os yw'n grŵp caeëdig? Mae'n bwysig bod eich presenoldeb ar-lein yn amddiffyn ac yn diogelu plant, teulu a staff.



Equality, Diversity and Inclusion

Anti Racism toolkit

If you haven't already, we recommend that you take a look at the Anti Racism Toolkit that has been developed for the sector by DARPL. Welsh Government's vision is to create a Wales which is anti-racist by 2030 to make a positive change to the lives of ethnic minority children. Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs is committed to supporting Welsh Government's vision where everyone can thrive and feel valued.

[Supporting an Anti-Racist Wales in Out of School Clubs - Clybiau Plant Cymru \(EN\)](#)

Cydraddoldeb, Amrywedd a Chynhwysiant

Pecyn cymorth Gwrth-Hiliaeth

Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, rydym yn argymhell eich bod yn edrych ar y Pecyn Cymorth Gwrth Hiliaeth sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer y sector gan DARPL. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw creu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030 er mwyn peri newid cadarnhaol i fywydau plant o leiafrifoedd ethnig. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi ymrwmo i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru lle gall pawb ffynnu a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

[Cefnogi Cymru Wrth-Hiliol mewn Clybiau All-Ysgol - Clybiau Plant Cymru \(CY\)](#)



Reflection

Playwork Principle 5: "The playworker's response to children and young people playing is based on a sound up to date knowledge of the play process, and reflective practice."

Reflection is important for us as playworkers; as laid out in Playwork Principle 5 it is part of the ethos that underpins our practice, so there is an expectation that as learners you will reflect throughout your learning journey, on situations, observations or things you have learnt and been able to put into practice. In every Level of qualification there are criteria that specifically asks you to reflect.

Don't be surprised if your Training Officer makes time at the end of observations to ask you how it went and why. Always remember the why, consider why you reacted a certain way, why you felt a certain way, why you didn't step in and intervene. The why will help you to fully understand the reasons behind the action, or in action.

Adfyfyrdod

Egwyddor Gwaith Chwarae 5: "Seilir ymateb y gweithiwr chwarae i blant a phobl ifanc yn chwarae ar wybodaeth gadarn, gyfamserol o'r broses chwarae ac arferion adfyfyriol."

Mae adfyfyrio yn bwysig i ni fel gweithwyr chwarae; fel y nodir yn Egwyddor Gwaith Chwarae 5 mae'n rhan o'r ethos sy'n sail i'n hymarfer, felly mae disgwyl y byddwch chi fel dysgwyr yn myfyrio ar hyd eich taith ddysgu, ar sefyllfaoedd, arsylwadau neu bethau rydych chi wedi'u dysgu ac wedi gallu eu rhoi ar waith. Ym mhob Lefel o gymhwyster mae meini prawf sy'n gofyn yn benodol i chi fyfyrio.

Peidiwch â synnu os bydd eich Swyddog Hyfforddiant yn neilltuo amser ar ddiwedd yr arsylwadau i ofyn i chi sut yr aeth a pham. Cofiwch bob amser pam, ystyriwch pam wnaethoch chi ymateb mewn ffordd arbennig, pam roeddech chi'n teimlo mewn ffordd arbennig, pam na wnaethoch chi gamu i mewn ac ymyrryd. Bydd y pam yn eich helpu i ddeall yn llawn y rhesymau y tu ôl i'r weithred, neu'r gweithredu.

Witness Testimonies

Witness testimonies are evidence provided on a learners practice by their manager, employer or supervisor. These can play a huge part in progressing through a playwork qualification and can support to cover and strengthen the evidence/criteria. Witness testimonies will need to be completed by a competent and suitably qualified member of staff, preferably by the manager/employer of the setting, who has witnessed the learner completing a day-to-day task. This could be, for example dealing with an accident or an emergency, communicating with parents in the setting, or participating in a team meeting; the manager/ employer will be asked to provide written evidence on the provided witness testimony form, and will need to be signed and dated by both the manager and the learner. When the witness testimony is completed, supporting evidence such as completed but redacted accident forms can be sent to the assessor as evidence. Remember to redact any of the child's personal information (GDPR) from this before submitting a copy.

Tystiolaethau Tystion

Tystiolaeth a ddarperir ar arferion dysgwr gan eu rheolwr, cyflogwr neu oruchwylydd yw tystiolaeth tystion. Gall y rhain chwarae rhan enfawr wrth symud ymlaen trwy gymhwyster gwaith chwarae a gallant gefnogi i gwmpasu a chryfhau'r dystiolaeth/meini prawf. Bydd angen i dystiolaeth tyst gael ei chwblhau gan aelod o staff cymwys sydd â chymwysterau addas, yn ddelfrydol gan reolwr/cyflogwr y lleoliad, sydd wedi gweld y dysgwr yn cwblhau tasg o ddydd i ddydd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, delio â damwain neu argyfwng, cyfathrebu â rhieni yn y lleoliad, neu gymryd rhan mewn cyfarfod tîm; gofynnir i'r rheolwr/cyflogwr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ar y ffurflen tystiolaeth tyst a ddarperir, a bydd angen i'r rheolwr a'r dysgwr ei llofnodi a'i dyddio. Pan fydd tystiolaeth y tyst wedi'i chwblhau gellir anfon tystiolaeth ategol – megis ffurflenni damwain wedi'u cwblhau ond wedi'u golygu – at yr aseswr fel tystiolaeth. Cofiwch gymryd ymaith unrhyw ran o wybodaeth bersonol y plentyn (GDPR) cyn cyflwyno copi.



Engaging

We need learner engagement from the start of the course to the end of the course because remember, **you are learners for the duration of the course not just for Christmas...!!** By you engaging in the course we learn about you and the ways you work best. We learn how best to support you and assess you when it comes to your qualification. Also, your engagement and responses show us that the information that we are giving is being understood by you the learners (**remember no question is a silly question**) and it's better to ask than leaving feeling unsure or not having an understanding. There are a number of ways that you can engage throughout your qualification:

Ymgysylltu

Mae angen ymgysylltu â dysgwyr o ddechrau'r cwrs i ddiwedd y cwrs oherwydd cofiwch, **ryd'ch chi'n ddysgwyr dros y cwrs cyfan, nid ddim ond y Nadolig!!** Trwy gymryd rhan yn y cwrs rydyn ni'n dysgu amdanoch chi a'r ffyrdd rydych chi'n gweithio orau. Rydym yn dysgu sut orau i'ch cefnogi a'ch asesu o ran eich cymhwyster. Hefyd, mae eich ymgysylltiad a'ch ymatebion yn dangos i ni fod y wybodaeth yr ydym yn ei rhoi yn cael ei deall gennych chi'r dysgwyr (**cofiwch nad yw unrhyw gwestiwn yn gwestiwn gwirion**) ac mae'n well gofyn na gadael yn teimlo'n ansicr neu heb ddealltwriaeth. Mae nifer o ffyrdd y gallwch ymgysylltu drwy gydol eich cymhwyster:

Engaging in sessions

Depending on the qualification you are undertaking sessions will be provided either face to face or online, but all courses will have online sessions to be attended. At the start of the course, we will send you a scheme of work so you can see the dates and times of the sessions, this will also show you what will be covered in these sessions. For those learners that attend sessions we see steady progression and achievement being made.

All sessions are designed to be engaging and interactive. No Training Officer wants to feel like they are talking to themselves and through engagement we can check understanding and whether the teaching has been effective. You will also get more from the session if you are engaging and interacting with other learners.

It is important that every learner attending online sessions be prepared to have cameras on and microphones unmuted, we want to be able to see your lovely faces and be able to hear your voice speaking up about your understanding of what is being discussed and share examples from practice. We enjoy nothing more than hearing about your practice, and by sharing this it can make others think about their own settings and how there are different ways that might work in settings, the opportunity to network will provide as vital a learning tool as the session itself.

With online sessions we try to ensure that they are as interactive as possible and as part of this we use mentimeter, so where possible it is useful to have a mobile phone to use for menti as well as a device to log into the session on.

Should there be reasons for you not being able to engage fully with the session then you need to discuss and get agreement from your Training Officer.

Cymryd rhan mewn sesiynau

Yn dibynnu ar y cymhwyster yr ydych yn ymgymryd ag ef, bydd sesiynau'n cael eu darparu naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, ond bydd gan bob cwrs sesiynau ar-lein i'w mynychu. Ar ddechrau'r cwrs, byddwn yn anfon cynllun gwaith atoch fel y gallwch weld dyddiadau ac amseroedd y sesiynau, bydd hyn hefyd yn dangos i chi beth fydd yn cael ei gynnwys yn y sesiynau. Ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n mynychu sesiynau rydym yn gweld y cynnydd a'r cyflawni cyson sy'n cael eu gwneud.

Mae'r holl sesiynau wedi'u cynllunio i fod yn ddeniadol ac yn rhyngweithiol. Nid oes unrhyw Swyddog Hyfforddi am deimlo eu bod yn siarad â nhw eu hunain, a thrwy ymgysylltu â'n gilydd gallwn wirio dealltwriaeth ac a yw'r addysgu wedi bod yn effeithiol. Byddwch hefyd yn cael mwy o'r sesiwn os ydych yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio â dysgwyr eraill.

Mae'n bwysig bod pob dysgwr sy'n mynychu sesiynau ar-lein yn barod i gael camerâu ymlaen a meicroffonau heb eu tewi, rydym eisiau gallu gweld eich wynebâu hyfryd a gallu clywed eich llais pan fyddwch yn sôn am eich dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei drafod ac yn rhannu enghreifftiau o ymarfer. Nid ydym yn mwynhau dim yn fwy na chlywed am eich arferion, a thrwy rannu hyn gallwch wneud i eraill feddwl am eu lleoliadau eu hunain a sut mae gwahanol ffyrdd a allai weithio mewn lleoliadau; bydd y cyfle i rwydweithio yn arf dysgu mor hanfodol â'r sesiwn ei hun.

Gyda sesiynau ar-lein rydym yn ceisio sicrhau eu bod mor rhyngweithiol â phosibl ac fel rhan o hyn rydym yn defnyddio mentimeter, felly lle bo'n bosibl mae'n ddefnyddiol cael ffôn symudol i'w ddefnyddio ar gyfer menti yn ogystal â dyfais i fewngofnodi i'r sesiwn ymlaen.

Os bydd rhesymau pam na allwch ymgysylltu'n llawn â'r sesiwn, yna mae angen i chi drafod a chael cytundeb gan eich Swyddog Hyfforddi.

Engaging in Reviews

Reviews are completed every 4 weeks and will be completed face to face, your Training Officer will arrange a time and date with you and come to see you in setting. By doing this it also gives us the opportunity to see you in practice and will allow us to complete an observation on you as this will help to cover criteria for the course. Reviews are essential as it gives us an opportunity to review with you your progress, how you are feeling, it shows what work has been covered/completed and what else you are working on. It's also a chance for you to feedback to your training officer anything you are unsure of or need support in when it comes to your work and sometimes you feel better sharing this face to face.

The reviews are also an essential part when it comes to funding your qualification and are required to be signed by Training Officer, learner and employer on the same day as when the review was completed. Failure to sign reviews, or missing reviews, can have an impact on your funding for your qualification and may result in you being termed from the qualification and unable to continue with your learning.

Employer engagement

Finally, it is essential that learners are supported by employers throughout their qualification and the main way to do this is for employers to engage with the process, whether this be reading reviews and understanding what work and targets the learner has been set, or completing a witness testimony, knowing when learners should be attending sessions or simply signing the review on time. Learners that have engaged employers progress through their qualification at a steadier rate than those who don't.

Ymgysylltu ag Adolygiadau

Cwblheir adolygiadau bob 4 wythnos a byddant yn cael eu cwblhau wyneb yn wyneb, bydd eich Swyddog Hyfforddi yn trefnu amser a dyddiad gyda chi ac yn dod i'ch gweld yn y lleoliad. Trwy wneud hyn mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ni eich gweld yn ymarferol a bydd yn caniatáu i ni gwblhau arsylwad arnoch gan y bydd hyn yn helpu i gwmpasu meini prawf y cwrs. Mae adolygiadau'n hanfodol gan ei fod yn rhoi cyfle i ni adolygu eich cynnydd gyda chi, sut rydych yn teimlo; mae'n dangos pa waith sydd wedi'i gwmpasu/gwblhau a beth arall rydych yn gweithio arno. Mae hefyd yn gyfle i chi roi adborth i'ch swyddog hyfforddi ar unrhyw beth rydych yn ansicr ohono neu angen cymorth yn ei gylch o ran eich gwaith ac weithiau rydych yn teimlo'n well rhannu hyn wyneb yn wyneb.

Mae'r adolygiadau hefyd yn rhan hanfodol o ariannu eich cymhwyster ac mae'n ofynnol iddynt gael eu llofnodi gan y Swyddog Hyfforddiant, y dysgwr a'r cyflogwr ar yr un diwrnod ag y cwblhawyd yr adolygiad. Gall methu â llofnodi adolygiadau, neu gollu adolygiadau, gael effaith ar eich cyllid ar gyfer eich cymhwyster a gall olygu y cewch eich galw o'r cymhwyster ac na allwch barhau â'ch dysgu.

Ymgysylltu â chyflogwyr

Yn olaf, mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cael eu cefnogi gan gyflogwyr drwy gydol eu cymhwyster a'r brif ffordd o wneud hyn yw i gyflogwyr ymgysylltu â'r broses, boed hynny drwy ddarllen adolygiadau a deall pa waith a thargedau a osodwyd i'r dysgwr, cwblhau tystiolaeth tyst, gwybod pryd y dylai dysgwyr fod yn mynychu sesiynau neu ddim ond llofnodi'r adolygiad mewn pryd. Mae dysgwyr sydd â chyflogwyr ymgysylltiedig yn symud ymlaen trwy eu cymhwyster ar gyfradd fwy cyson na'r rhai sydd hebddynt.



Meet the Training Team | Cyfarfod â'r Tîm Hyfforddi

Here's a who's who of who is in the Training Team. | Dyma 'Pwy yw Pwy' o aelodau'r Tîm Hyfforddi.

Dawn Bunn -
National Training Manager (SE Wales) |
Rheolwr Hyfforddiant Cenedlaethol (De-ddwyrain
Cymru)



Sarah Turton -
Lead IQA (SE Wales) | AAM Arweiniol (De-ddwyrain Cymru)



Phoebe Wilson -
Lead Training Officer (SE Wales) (Cymraeg) |
Swyddog Hyfforddi Arweiniol (De-ddwyrain
Cymru) (Cymraeg)





Bev Williams –
Training Officer (SE Wales) |
Swyddog Hyfforddi (De-ddwyrain Cymru)



Bethan Jones –
Training Officer (SE Wales) |
Swyddog Hyfforddi (De-ddwyrain Cymru)




Emma Salter –
Training Officer (SE Wales) |
Swyddog Hyfforddi (De-ddwyrain
Cymru)






Jacqui John -
 Training Officer (West Wales) |
 Swyddog Hyfforddi (Gorllewin Cymru)



Catherine Smith -
 Training Officer (North Wales) (Cymraeg) |
 Swyddog hyfforddi (Gogledd Cymru) (Cymraeg)



Tracey Bargh -
 Training Officer (North Wales) (Cymraeg) |
 Swyddog Hyfforddi (Gogledd Cymru) (Cymraeg)





Kim Wilson –
Senior Training Administrator (West Wales) |
Uwch Weinyddydd Hyfforddiant (Gorllewin
Cymru)



Becci Gameson –
Training Administrator (West Wales) |
Gweinyddydd Hyfforddiant (Gorllewin Cymru)



King Yi Wong –
Training Administrator (SEWales) |
Gweinyddydd Hyfforddiant (De-ddwyrain
Cymru)



Learner & Employer Newsletter
April 2025

Newyddlen y Dysgwr a'r Cyflogwr
Ebrill 2025



www.clybiauplantcymru.org

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Company limited by guarantee | Cwmni cyfyngedig drwy warrant 4296436
Registered charity | Elusen Gofrestredig 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff,
CF14 5UW

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd,
CF14 5UW

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436 | Elusen Gofrestredig



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cambrian
Training
Hyfforddiant
Cambrian